CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

MANTELL GWYNEDD

*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# GRANT SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD 2025-2026



# GRANT SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD

## Cefndir

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi darparu £3.4 biliwn o gyllid ar draws y DU rhwng 2023 a mis Mawrth 2026. Mae'r arian wedi mynd yn syth i gymunedau lleol, ledled yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Ar gyfer 2025-26 daeth £42.4 miliwn o'r arian i Ogledd Cymru gyda Gwynedd yn derbyn dros £8.1miliwn. Llwyddodd Mantell Gwynedd i dderbyn £650,000 i'w ddyrannu fel Grant Sector Wirfoddol.

Roedd Grant Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd yn cynnig grantiau rhwng 2k a 100k i gefnogi prosiectau fyddai'n arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau Gwynedd. Roedd angen dangos sut y byddai pob prosiect yn cryfhau'r ymdeimlad o falchder cymunedol a/neu yn adeiladu cymuned ddiogel a iach.

Mae'r llyfryn yma yn dangos sut dyrannwyd Grant Sector Wirfoddol Gwynedd, pa gymunedau ac ardaloedd sydd wedi cael budd, a sut yr ydym wedi mynd ati i fesur gwerth y buddsoddiad pwysig yma.

SWYDDFA GOFRESTREDIG
25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd, LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru



## Rhagair

Pleser unwaith eto yw cyflwyno adroddiad gwerth chweil sydd yn dangos sut y bu i Mantell Gwynedd weinyddu grant Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd yn ystod 2025-26.

£8.1miliwn ddaeth i Wynedd yn ystod y flwyddyn a derbyniodd Mantell Gwynedd £650,000 i sefydlu cronfa grant ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol. Er bod yr amserlen yn dynn a chyfyngiadau caeth ar sut y gellid gwario'r arian, mi lwyddodd Mantell Gwynedd, unwaith eto, i weinyddu cronfa grant gan sicrhau fod pob rhan o Wynedd yn elwa. Sicrhawyd fod yr arian yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i rai o gymunedau anghenus Gwynedd gan hefyd adael gwaddol sylweddol i'r dyfodol yn y cymunedau hyn.

Lansiwyd y Gronfa ar 12fed o Fai, 2025 ac erbyn 30ain o Fehefin derbyniwyd 56 cais gwerth £2.1 miliwn. Gyda £650,000 i'w rannu, a bron pob cais yn un haeddiannol , 'roedd y penderfyniadau am bwy ddylai dderbyn arian yn heriol dros ben.


Eleni gwelwyd dau ddigwyddiad go fawr yn derbyn nawdd sef Gwyl Arall, Caernarfon a hefyd Sesiwn Fawr, Dolgellau. Mae gwyliau fel hyn yn bwysig, nid yn unig o safbwynt yr elfen ddiwylliannol ond hefyd yr hwb economaidd sydd yn ganlyniad digwyddiadau o'r math yma. Fel y gwelwch o'r adroddiad yma rhoddwyd arian i gynnal hyfforddiant i wirfoddolwyr y digwyddiadau hyn yn ogystal â chynyddu sgiliau sain, technoleg a marchnata. Dyma waddol pwysig ar gyfer dyfodol y gwyliau. Pleser hefyd oedd ariannu Gwyl Garn (Garndolbenmaen) gan obeithio y bydd yn gatalydd ar gyfer rhagor o gydweithio a gweithgaredd cymunedol.

Mae neuaddau a chanolfannau cymunedol yn ogystal â chlybiau chwaraeon wedi cael budd sylweddol eto eleni ac, fel y gwelwch o'r adroddiad, mae lleoliadau reit ar draws Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus o Ben Llŷn i ben draw Sir Feirionnydd ac yn cynnwys Canolfan Glanadda Bangor, Caban Brynrefail, Clwb Rygbi Bethesda, Canolfan Gerlan, Clwb Rygbi Pwllheli a neuaddau pentref Brithdir, Talsarnau ac Aberdyfi, a hefyd Theatr y Ddraig a Hwb Cymunedol Oasis y ddau yn Y Bermo.

Mae'n braf gweld ein cymunedau yn ffynnu yng Ngwynedd ac mae'n bwysig cofio na fyddai dim o hyn yn digwydd heb wirfoddolwyr wrth y llyw, yn drefnwyr gwyliau a digwyddiadau, yn aelodau o bwyllgorau neuaddau pentref neu yn hyfforddwyr clybiau chwaraeon. Nhw ydi'r pobl sydd yn sicrhau fod gennym sector mor arbennig o weithgar a hyfyw yng Ngwynedd. Felly diolch iddynt am gyflwyno'r ceisiadau, am gwblhau eu prosiectau ac am sicrhau dyfodol gwell i rai o'r mannau cymunedol pwysig hyn. Byddai Gwynedd yn dlawd iawn heb y bobl hyn ac mae wedi bod yn bleser pur medru sicrhau cronfa fel hon ar eu cyfer.

**Bethan Russell Williams**
**Prif Swyddog**
**Mantell Gwynedd**

# Lleoliad Grantiau





### ARFON
- Canolfan Glanadda, Bangor
- Maes-G Showzone, Bangor
- Caban, Brynrefail
- Antur Waunfawr
- Clwb Rygbi Bethesda
- Cymdeithas Diogelu'r Gerlan Bethesda
- Gŵyl Arall, Caernarfon

### DWYFOR
- Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn
- Cyngor Tref Pwllheli
- Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog
- Canolfan Gymdeithasol a Cae Chwarae Garndolbenmaen
- Clwb Chwaraeon Pwllheli
- Grŵp Ti a Fi Sarn Bach


### MEIRIONNYDD
- Neuadd Bentref Brithdir
- Neuadd Gymuned Talsarnau
- Neuadd Dyfi, Aberdyfi
- Cwmni Pum Plwy Penllyn, Y Bala
- Theatr y Ddraig,Y Bermo
- Cyngor Cymuned Talsarnau
- Hwb Cymunedol Oasis, Y Bermo
- Clwb Pêl Fasged Tegid, Y Bala
- Sesiwn Fawr, Dolgellau
- Clwb Hoci Dysynni, Tywyn
- Friends of Wern Mynach, Y Bermo




## Symiau grant a ddyrannwyd ar draws Gwynedd




## Symiau grant a ddyrannwyd ar draws Gwynedd




## Nifer proseictau ar draws Gwynedd



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Canolfan Glanadda, Bangor

**£61,112**

Adnewyddu'r Ganolfan gan cynnwys gosod cegin, ffenestri, ail-rendro'r adeilad, gwresogyddion, peintio a gorchudd llawr.

*"Mae'r gwelliannau yn Glanadda wedi gwneud gwahaniaeth anhygoel. Mae'r ffenestri gwresogyddion newydd a'r addurno wedi gwneud y ganolfan yn llawer cynhesach a goleuach. Mae'r gegin a'r cyfleusterau newydd yn wych gyda mwy o aelodau'r gymuned yn defnyddio'r Ganolfan."*






## Caban, Brynrefail

**£71,255**

Adnewyddu'r Caban gan gynnwys cegin newydd, ffensys a decking allanol, gorchudd lloriau a gwelliannau lifft.





*"Mae moderneiddio'r mannau mewnol ac allanol yn y Caban wedi creu amgylchedd mwy hyblyg a all ddarparu ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, cyfleoedd hyfforddi, cyfarfodydd cymdeithasol, a chydweithio. Bydd yr hyblygrwydd cynyddol hwn yn ein helpu i ehangu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y gallwn eu cynnig, gan gryfhau ein rôl fel canolfan ar gyfer hwb i'r gymunedol yn Brynrefail.*

## Maes-G Showzone, Bangor

**£6,919**

Prynu offer technegol ar gyfer cynnal cynhyrchiadau a lleihau costau rhedeg ar gyfer y dyfodol.

*"Mae hyn yn newyddion gwych i ni gan y bydd y darn hwn o offer yn ein helpu am flynyddoedd i ddod."*



# Arfon



## Antur Waunfawr

**£10,975**

Adnewyddu'r caffi a darparu offer newydd ar gyfer ail agor caffi cymunedol, pwyntiau gwefru trydanol ynghyd â chyfleoedd hyfforddiant



*"Gwnaeth y grant wahaniaeth mawr iawn I Antur Waunfawr. Heb y cymorth ariannol i brynu'r offer angenrheidiol, ni fyddai Caffi Blas y Waun wedi gallu ailagor. Erbyn hyn, mae'r caffi wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn mynd o nerth i nerth. Yn bwysicach fyth, mae'r caffi wedi dod yn ganolbwynt i'r gymuned leol – man croesawgar lle gall pobl gyfarfod, lleihau unigrwydd, a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol. Mae hefyd wedi creu cyfleoedd i'r pobl ag anableddau dysgu sy'n derbyn hyfforddiant gennym, gan ddatblygu eu sgiliau a chyfrannu'n gadarnhaol at eu llesiant a hyder."*

## Cymdeithas Diogelu'r Gerlan, Bethesda

**£7,668**

Uwchraddio'r Ganolfan drwy osod ffenestri a drysau newydd.

*"Mae grant SPF drwy Mantell Gwynedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ganolfan gymunedol yn Gerlan. Mae wedi gwneud y ganolfan gymunedol yn fwy croesawgar, sydd wedi creu ymdeimlad o falchder yn y cymuned ac yn darparu croeso cynnes."*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Clwb Rygbi Bethesda

**£29,649**

Gwella cyfleusterau gan gynnwys gosod goleuadau allanol a tarmacio maes parcio newydd.

*" Mae'r grant wedi sicrhau gwell mynediad a chyfleusterau fydd yn gwneud y ganolfan hwb yn fwy hygyrch a rhoi fwy o gyfleoedd i'r gymuned leol gneud defnydd o'r adeilad."*



## Gŵyl Arall, Caernarfon

**£8,510**

Cynnal hyfforddiant i wirfoddolwyr ar gyfer cynyddu sgiliau sain a marchnata.

*"Mae'r grant yma wedi bod yn bwysig iawn i Gŵyl Arall. Mae gennym nawr pŵl o wirfoddolwyr sydd yn gymwys ac yn hyderus i helpu gyda marchnata a darparu'r elfennau technegol mewn digwyddiadau byw. Mae wedi bod yn ffordd wych o ddod i adnabod gwirfoddolwyr newydd i fod yn rhan o dîm Gŵyl Arall. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i'n galluogi ni i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i safon uchel mewn ffordd cynaliadwy. Yn ogystal mae'r sawl oedd ar y cyrsiau hyn yn defnyddio ei sgiliau i helpu sefydliadau a digwyddiadau eraill yn yr ardal, felly nid Gŵyl Arall yn unig sydd yn elwa."*







# Dwyfor

## Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn

**£45,363**

Adnewyddu'r Amgueddfa yn gosod system pwmp gwres aer, ail-fodelu gofod mewnol, gwella insiwleiddio ffenestri, peintio ynghyd a gosod offer diogelwch pellach.

*"Mae'r gwelliannau i'r system wresogi ac insiwleiddio y ffenestri, yn galluogi cynnal mwy o ddigwyddiadau neu logi yr adeilad allan drwy'r flwyddyn, fydd yn helpu incwm yr Amgueddfa i'r dyfodol. Mae'r gwaith pellach sy'n cynnwys canllawiau newydd, ystôl i'r croglofft ac uwchraddio system larwm mwg/ tresmaswr yn bwysig iawn i gryfhau diogelwch yr Amgueddfa a'i chasgliad. "*





## Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog

**£40,000**

Gosod offer cyfoes a hygyrch ar gyfer cae chwarae newydd

*"Yn sgil derbyn grant Mantell Gwynedd er mwyn gwella Cae Chwarae Llanbedrog mae'r buddion wedi mynd tu hwnt i'r gallu i osod offer newydd, diogel ac arloesol. Mae wedi darparu gofod sy'n hafan i blant y pentref a thu hwnt i ymgynnull yn yr awyr iach i chwarae a chymdeithasu. Mae'r cylch meithrin lleol yn ei ddefnyddio ar gyfer sesiynau chwarae, a phlant yr ysgol gynradd ac uwchradd yno bob gafael yn mwynhau. Diolch o galon am y gefnogaeth amhrisiadwy hwn."*





# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

Dwyfor

## Cyngor Tref Pwllheli

**£4,999**

Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a datblygu cynlluniau ar gyfer ail-fodelu parc sglefrio.

*"Mae'r grant gan Mantell Gwynedd wedi bod yn allweddol wrth alluogi'r Cyngor Tref i gynnal proses ymgynghori ystyrlon, gan dderbyn mewnbwn gan gymuned i ddarparu'r dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb, sy'n cynnig campfa awyr agored a llwybr ninja—rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall."*




## Clwb Chwaraeon Pwllheli

**£14,833**

Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes ar gyfer uwchraddio ac ail-fodelu Clwb Chwaraeon Pwllheli.

*"Mae'r arian grant wedi caniatáu Clwb Chwaraeon Pwllheli i symud ymlaen i'r cam nesaf o rhan ail-ddatblygu a diweddaru adnoddau y Clwb ar gyfer rygbi, hoci a chriced."*



## Canolfan Gymdeithasol a Cae Chwarae Garndolbenmaen

**£2,000**

Cyfrannu at gostau cynnal Gŵyl Garn gyda'r bwriad o greu cyfleoedd i'r gymuned leol ddod at ei gilydd, i gymdeithasu a chryfhau'r ymdeimlad o berthyn.

*"Byddai wedi bod yn amhosib i ni gynnal ein gŵyl pe na fyddai am gymorth gan Mantell Gwynedd. Roedd y gefnogaeth ariannol drwy Grant Sector Wirfoddol Gwynedd yn hollbwysig at lwyddiant ein digwyddiad ac roedd y gefnogaeth gan Mantell Gwynedd yn amhrisiadwy."*





## Grŵp Ti a Fi Sarn Bach

**£2,858**

Cynnal cyfres o weithgareddau ynghŷd â phrynu deunyddiau ar gyfer grŵp newydd

*"Mae'r arian grant wedi galluogi ni fel rhieni i ddod a'm plant i gyd-chwarae ond hefyd I ni gymdeithasu. Mae wedi ein galluogi ni i ddarparu teganau diogel, addysgol ac ysgogol i'r babis a phlant sy'n hyrwyddo eu datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.*

*Rydym hefyd wedi cael profi amrywiaeth o weithgareddau megis gwersi cerdd, gweithdai crefftau, cwrs cymorth cyntaf, Sensori Sara a llawer mwy."*





# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

Meirionnydd

## Neuadd Bentref Brithdir

£17,627

Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a chynlluniau ar gyfer uwchraddio'r neuadd. Darparu byrddau a chadeiriau newydd ar gyfer y neuadd.

*"Mae'r grant yma wedi bod o help mawr i ni yn ein ymgais o ddatblygu a gwella cyflwr y Neuadd. Ein nod hefo'r arian grant oedd cyflawni gwaith rhagbaratoawl i alluogi ni symud ymlaen i wireddu'r datblygiad. Mae'r adroddiadau a cynlluniau angenrheidiol wedi eu cwblhau ac mae'r cais cynllunio wedi ei gyflwyno. Mae'r byrddau a chadeiriau newydd mewn defnydd yn barod a defnyddwyr y Neuadd yn falch ohonyn nhw."*





## Neuadd Gymuned Talsarnau

£9,437

Gosod cegin newydd yn y neuadd a pheintio'r ystafell.

*"O ganlyniad i'r gwaith adnewyddu'r gegin, mae'r Neuadd wedi denu fwy o ddefnyddwyr. Mae'r buddsoddiad drwy Mantell Gwynedd yn galluogi'r Neuadd i wasanaethu nifer fawr o ddefnyddwyr dros y tymor hir."*



## Neuadd Dyfi, Aberdyfi

£2,495

Uwchraddio systemau digidol/band eang y neuadd er mwyn eu galluogi i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau.

*"Daeth y grant Ffyniant Gyffredin drwy Mantell Gwynedd ar yr union amser iawn i ni. Roedd ein rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth yn cael trafferth gyda'r galwadau cynyddol yr oeddem yn eu gwneud arno. Helpodd y cyllid ni i uwchraddio, atgyfnerthu a gwella nid yn unig Wi-Fi, ond goleuadau Sain Theatr a digwyddiadau ffrydio byw. Diolch yn fawr iawn."*



Neuadd Dyfi

## Cwmni Pum Plwy Penllyn, Y Bala

£70,000

Adnewyddu Canolfan Bro Tegid yn Y Bala gan gynnwys ail-bwyntio'r adeilad, ail-fodelu ystafelloedd ymolchi, grisiau newydd, addasu'r cyntedd ac addurno'r ganolfan.

*"Roedd uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn fuddsoddiad hanfodol i'r gymuned leol, gan gryfhau rôl y Ganolfan fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn y dref. Trwy wella'r cyfleusterau, sicrhawyd bod y ganolfan yn hygyrch, modern ac yn addas ar gyfer anghenion presennol a dyfodol y gymuned. Bu'r prosiect hwn nid yn unig yn cynyddu defnydd o'r ganolfan, ond hefyd yn cryfhau ymdeimlad o berthyn ymysg trigolion yr ardal. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr arian grant a dderbyniwyd, a wnaeth y datblygiadau hyn yn bosibl."*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

Meirionnydd

## Theatr y Ddraig, Y Bermo

**£10,691**

Hyfforddi staff i ddatblygu cynllun marchnata, darparu offer cyfrifiadurol newydd ynghŷd â gwelliannau i'r lifft ac offer cegin newydd.

*"Mae'r grant hwn wedi ein galluogi i wella ein cyfleusterau arlwyo yn aruthrol ac yn bwysicaf oll ein lifft sy'n hanfodol i gyrraedd pob rhan o ochr y theatr o'r adeilad y tu hwnt i'r cyntedd. Mae ein cynllun marchnata a'n datblygu cynulleidfaoedd hefyd wedi cael hwb enfawr gyda'r hyfforddiant, y gliniaduron a'r baneri. Edrychwn ymlaen i elwa mewn niferoedd cynulleidfaoedd cynyddol y flwyddyn nesaf."*

## Cyngor Cymuned Talsarnau

**£6,015**

Gwella mynedfeydd cae chwarae Talsarnau i alluogi defnydd drwy'r flwyddyn o'r cae chwarae.

*"Mae'r grant wedi helpu i wella cyfleusterau cymunedol a chefnogi'r Cyngor Cymuned yn ariannol i gyflawni'r gwaith."*



## Hwb Cymunedol Oasis, Y Bermo

**£89,965**

Adnewyddu a chreu gofod newydd yn yr Hwb Cymunedol yn cynnwys ail-blastro, lloriau a nenfydau newydd, ystafelloedd ymolchi a thoiledau, cegin, ail-beintio a gorchudd lloriau.

*"Bydd y grant yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n sefydliad er mwyn cyrraedd mwy o bobl yn ein cymuned."*







## Clwb Pêl Fasged Tegid, Y Bala

**£2,062**

Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Y Bala i gymryd rhan mewn datblygu'r Clwb Pêl Fasged a hyfforddi aelodau i dderbyn Tystysgrif Hyfforddi

*"Mae'r grant wedi galluogi i ni wella ansawdd ein gweithgareddau trwy ganiatáu i aelodau fynd ar gyrsiau hyfforddi, sydd o ganlyniad wedi datblygu eu gwybodaeth hwy. Mae'r grant wedi galluogi i ni gynnal fwy o sesiynau ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc am y flwyddyn gyfan. Elfen bwysig arall o'r grant yw ei bod wedi caniatáu ni i drefnu a rhedeg diwrnodau blasu i blant iau ar gyfer datblygu oedrannau ychwanegol i'r clwb. Rydym hefyd wedi gallu archebu offer angenrheidiol ar gyfer y diwrnodau yma."*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

Meirionnydd

## Sesiwn Fawr, Dolgellau

**£22,568**

Cefnogi cyfleoedd hyfforddi iechyd a diogelwch ynghyd â hyfforddi sgiliau sain a thechnoleg i'r gymuned leol a fydd/all arwain at gyflogaeth.

*"Mae'r grant wedi sicrhau hyfforddiant a fydd/all arwain at gyflogaeth. Mae 9 wedi derbyn hyfforddiant SIA a rhai eisoes wedi derbyn gwaith o ganlyniad. Mae hefyd wedi cefnogi hyfforddi gwirfoddolwr bydd yn helpu i gadw costau cynnal Sesiwn Fawr mor isel a phosib"*





## Friends of Wern Mynach, y Bermo

**£21,000**

Gwella cyfleusterau gan gynnwys cladio ac insiwleiddio'r caban cymunedol, paneli solar i gyflenwi trydan ar y safle, ffensys ac arwyddion ddwyieithog o amgylch yr ardd gymunedol.

*"Mae'r grŵp yn ddiolchgar iawn am y cyllid a roddwyd i ni gan Mantell Gwynedd, ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb y Gronfa Ffyniant Gyffredin.*

*Bydd y ffens yn rhoi safle diogel i ni. Bydd to'r caban yn ein galluogi i gasglu a chynaeafu dŵr glaw. Bydd yr ynni solar yn ein galluogi i bweru goleuadau ac offer foltedd isel. Bydd yr arwyddion yn helpu gydag ymgysylltu ac yn creu dealltwriaeth hawdd o natur, yr amgylchedd a beth yw gwarchodfa natur. Bydd yr holl bethau uchod yn gwella ein grŵp, yn helpu gydag ymgysylltu cymunedol ac yn ychwanegu mwy o wirfoddolwyr o bob oed a chefndir."*





## Clwb Hoci Dysynni, Tywyn

**£15,000**

Cyfrannu at gostau datblygu a gosod cae hoci newydd yn Nhywyn.

*"Roedd yn golygu y gallai'r prosiect fynd yn ei flaen mewn gwirionedd. Roedd yn brosiect gwerth 360k ac fe wnaeth y grant wahaniaeth enfawr i a fyddai'r cae newydd yn cael ei wneud ai peidio."*







# Gwerthusiad

Cwblhawyd adroddiad Mesur Gwerth Cymdeithasol ar 3 phrosiect gan ddefnyddio methodoleg SROI – lle mesurwyd gwerth beth sy'n cael ei gynhyrchu am bob £1 sydd wedi ei fuddsoddi.

Roedd y 3 prosiect ar draws Gwynedd, un yn ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd sef **Caban Brynrefail, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn ac Hwb Cymunedol Oasis yn Y Bermo.**

## GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL GRWP CYMUNEDOL OASIS Y BERMO

Barmouth OASIS Community Group

### ADRODDIAD RHAGOLWG ENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad rhagolygon o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) Hwb Grŵp Cymunedol Oasis Abermaw, gan ddogfennu'r gwerth cymdeithasol sylweddol a grëir drwy eu gweithgareddau sy'n seiliedig ar y gymuned. Mae'r ganolfan wedi derbyn grant gan Gronfa Ffyniant Cyffredin i ddatblygu'r cyfleusterau er mwyn sicrhau gwell hygyrchedd a chynyddu'r gallu i gefnogi'r gymuned ehangach.

**✳ DEILLIANNAU I BUDDIOLWYR PRESENNOL**

- Teimlo yn llai ynysig – 89%
- Gwell llesiant meddyliol – 84%
- Gwell llesiant corfforol – 84%

Mewnbynnau drwy gymorth ariannol a'r 8 gwirfoddolwr sydd yn gwirfoddoli **52 awr** yr wythnos rhyngddynt i'w cymuned



**✳ DEILLIANNU I'R GWIRFODDOLWYR**

- Gwell synnwyr o gymuned – 83%
- Gwell llesiant meddyliol – 83%
- Gwell synnwyr o bwrpas – 100%

**Cyfleusterau newydd yn cael ei rhagweld i helpu buddiolwyr newydd:**

- Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli
- Clwb cinio wythnosol i gefnogi pobl hŷn yn y gymuned
- Mwy o grwpiau cymdeithasol yn cynnwys grŵp babanod newydd
- Cyfleusterau i gefnogi pobl ddigartref neu sydd yn poeni am gostau byw

Am bob £1 a fuddsoddwyd yn y gweithgareddau cymunedol a chyfleusterau mae yna werth cymdeithasol o **£5.61** gydag amrediad o £2.60 - £6.52

"Roeddwn yn teimlo yn unig iawn ond nawr yn teimlo yn rhan o rywbeth"

**Mynediad i wasanaethau a chymorth ar faterion megis cymorth ariannol a chyngor am egni**

**45 pryd yn cael ei baratoi yn wythnosol**

**Rhannu'n Deg**

✳ Adroddiad llawn ar gael yn www.mantellgwynedd.com

SOCIAL VALUE CYMRU · MANTELL GWYNEDD · CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU · Funded by UK Government



## AMGUEDDFA FORWROL LLŶN

### Adroddiad Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Ebrill 2025 - Mawrth 2027

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

**TROSOLWG MEWN NIFEROEDD**

Mae 310 ymwelwyr wedi ymweld â'r Amgueddfa

Mae 350 o bobl leol yn ymwneud yn rheolaidd

Mae 37 o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser

Mae 160 o ddisgyblion a 10 athrawon wedi ymgysylltu



**YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID**



Ymwelwyr: Cyfweld 9, 31 holiadur wedi ei derbyn

Pobl Leol: Cyfweld 26, 35 holiadur wedi ei derbyn

Gwirfoddolwyr: Grŵp ffocws gyda 9 gwirfoddolwr, ac 22 holiadur

Disgyblion: Grŵp ffocws gydag 18 o blant, ac 16 holiadur


Athrawon: Cyfweld 3 athrawon, 2 ymateb holiadur

**DEILLIANNAU YMWELWYR**

100% o ymwelwyr gyda gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn

81% o ymwelwyr yn cael cyfle i gymdeithasu





**DEILLIANNAU GWIRFODDOLWYR**

95% yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl.

86% gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd

95% gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned

**DEILLIANNAU YSGOLION**

88% o ddisgyblion gyda gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sydd yn dilyn i deimlad cynyddol o falchder am eu treftadaeth

100% o athrawon gyda gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol

**DEILLIANNAU POBL LLEOL**

83% o bobl leol gyda theimlad cynyddol o falchder yn eu treftadaeth

66% o bobl leol gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned

Rhagolwg Gwerth Adenillion ar Fuddsoddiad (SROI): £1 → £3.00 - £6.16

*Gweler yr adroddiad llawn am ragor o wybodaeth*

SOCIAL VALUE CYMRU · MANTELL GWYNEDD

# Caban
## Adroddiad Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad
## Ebrill 2025 - Mawrth 2027

## Trosolwg mewn niferoedd

- Mae **2,000** o bobl yn y gymuned wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad hwn
- Mae **10** o denantiaid yn rhan o Caban
- Mae **9** o wirfoddolwyr ar fwrdd y cyfarwyddwyr
- Llwyddodd Caban i gael **£85,506** mewn cyllid grant i uwchraddio'r adeilad

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Bobl yn y gymuned | Tenantiaid | Gwirfoddolwyr |
|---|---|---|
| **26** cyfweliad wyneb yn wyneb | **1** cyfweliad wyneb yn wyneb | **3** chyfarfod gyda'r gwirfoddolwyr |
| **2** grŵp ffocws wyneb yn wyneb gyda **12** o bobl | **1** cyfweliad ar-lein | **1** grŵp ffocws gyda **6** gwirfoddolwr |
| **107** ymateb i'r arolwg | **10** ymateb i'r arolwg | **9** ymateb i'r arolwg |

## Deilliannau i bobl yn y gymuned

- Mae **84%** o'r bobl yn y gymuned leol yn teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn o fewn y gymuned drwy fynychu Caban
- Mae **87%** o bobl yn y gymuned yn teimlo'n llai unig ac ynysig oherwydd eu bod yn gallu mynd i Caban
- Mae **69%** o bobl yn y gymuned yn profi mwy o ymdeimlad o bwrpas oherwydd bod eu gweweithgarwch yn Caban yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

## Tenantiaid

- Mae **100%** o'r tenantiaid yn teimlo mwy o ymdeimlad o berthyn drwy fod yn rhan o Caban
- Mae **90%** o'r tenantiaid yn teimlo eu bod wedi cael mwy o gyfleoedd rhwydweithio drwy fod yn rhan o Caban

## Gwirfoddolwyr

- Mae **60%** o'r gwirfoddolwyr yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad gan weld eu gwaith caled a'u hymdrechion yn elwa'r gymuned.
- Mae **80%** o'r gwirfoddolwyr yn teimlo ymdeimlad o bwrpas wrth allu cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Caban.

**Rhagolwg Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)**

*Gweler yr adroddiad rhagolwg llawn am ragor o wybodaeth

£1 → £3.28 - £5.90

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government